Prif ganlyniad yr uwchgynhadledd fu datblygu Datganiad gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal; sicrhau bod eu lleisiau'n parhau wrth galon yr hyn a wnawn. Bydd y Datganiad yn cael ei gytuno'n ffurfiol rhwng y Llysgenhadon Ifanc, sy'n cynrychioli pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru, a Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei lofnodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth.

Mae'r Datganiad yn cynnwys gweledigaeth o'r hyn y byddai trawsnewid gwasanaethau'n ei olygu i blant a phobl ifanc mewn gwirionedd. Bydd y weledigaeth yn cael ei datblygu ymhellach dros amser i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Mae ail ran y Datganiad yn cynnwys cyfres o ymrwymïadau a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth ar y cyd.

Bydd yr ymrwymïadau hyn yn mynd i'r afael yn benodol â materion a amlygwyd gan bobl ifanc yn yr Uwchgynhadledd gan gynnwys yr angen am barhad a chysondeb cymorth a materion yn ymwneud â'r stigma o fod mewn gofal.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal Uwchgynhadledd debyg ar ben-blwydd y Datganiad er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn ei ymrwymïadau, a chyfres o ddigwyddiadau Ymarferwyr a Rhanbarthol yn ystod 2023.

Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.

Un o ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Plant yw 'Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'. Bydd cyflawni'r ymrwymïad hwn yn helpu i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal drwy helpu i ymgorffori ymdeimlad cryfach o weledigaeth a chyfrifoldeb tuag at y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal fel blaenoriaeth i bawb sy'n ymwneud â'r plant a'r bobl ifanc hyn. Mae'r gwaith hwn yn allweddol i gyflawni'r datganiad o Uwchgynhadledd Gyntaf Gadael Gofal.

Prif elfennau'r gwaith hwn i'w cyflawni yw datblygu siarter rhianta corfforaethol eleni ochr yn ochr â chanllawiau statudol drafft rydym yn bwriadu eu cwblhau yn 2024. Bydd sefydliadau ac uwch arweinwyr sy'n ymrwymo i'r Siarter yn gwneud ymrwymïad cyhoeddus clir yn datgan eu cefnogaeth i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a thrwy wneud hynny yn cael eu dwyn i gyfrif am sicrhau bod gwell cynnig o gymorth yn cael ei ddarparu i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gan bob rhan o'r sector cyhoeddus.

Cynorthwyo plant i aros gyda theuluoedd

Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol

Fel rhan o'n gwaith i drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru rydym yn datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Bydd y Fframwaith yn nodi sut rydym yn gweithio yng Nghymru mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n plant a'n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.

Bydd y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol yn gymysgedd o ofynion gorfodol ac awgrymiadau ymarfer, sydd wedi'u gwreiddio mewn ymarfer perthynol sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae'n rhaid i'r agweddau allweddol ar ymarfer fod yn gyson ledled Cymru os yw pob plentyn a theulu'n mynd i dderbyn gwasanaeth tebyg ar drothwy cyffredin. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau mwy o gyffredinoedd a gweithio'n ddi-dor ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol gan adeiladu ar y gwaith da hyd yma.

Bydd y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol yn ychwanegu gwerth i ymarfer lleol ac yn sicrhau y gellir cael cysondeb gan ganiatáu amrywiad lleol hanfodol o ran cyd-destun yr un pryd.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cynnal adolygiad o fframweithiau ymarfer eisoes, eu cryfderau a'u cyfyngiadau ac mae gwaith yn cael ei wneud bellach i ddatblygu'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol mewn cydweithrediad â'r sector. Dechreuodd y gwaith ar hyn ddechrau Medi 2022 drwy gyd-gynhyrchu â rhanddeiliaid ac ymarferwyr allweddol a disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn diwedd 2023.

Cyn bo hir, byddwn yn cynnull Grŵp Arbenigol i gytuno ar gwmpas, fformat a chynnwys y Fframwaith ochr yn ochr â chynllun prosiect.

Eiriolaeth Rhieni

Rôl eiriolaeth rhieni yw cefnogi rhieni i ymwneud yn gadarnhaol â gweithwyr cymdeithasol, sefydliadau'r trydydd sector, y llysoedd teulu a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatrys materion sy'n effeithio'n negyddol ar eu teulu. Yn aml, gall rhieni sydd â phrofiad o les plant weithio fel eiriolwyr i rieni eraill er mwyn rhoi cymorth i'w helpu gyda'u hymgysylltu a'u dealltwriaeth.

Rydym yn buddsoddi o leiaf £1.5 miliwn o gyllid dros y tair blynedd nesaf, drwy'r Gronfa Newid Plant Sydd â Phrofiad o Ofal. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu prosiectau presennol yn ymwneud ag Eiriolaeth Rhieni yn rhanbarthol a sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu sefydlu ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru fel rhan o ddarpariaeth genedlaethol.

Mae gwasanaethau eiriolaeth rhieni'n gweithredu ar raddfa gyfyngedig ar hyn o bryd mewn rhai ardaloedd, ac rydym yn cydweithio â darparwyr trydydd sector presennol (Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS), TGP Cymru a'r Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni) i helpu i gynyddu eu gwasanaethau lleol yn rhanbarthol, cyn lledaenu i ardaloedd eraill o Gymru, fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth yn genedlaethol.

Er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau'n gyson ar hyd a lled Cymru fel rhan o ddarpariaeth genedlaethol, rydym yn datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Rhieni gyda phartneriaid yn y trydydd sector. Mae hyn yn disgrifio meini prawf craidd y gwasanaeth y mae'n rhaid i bob rhanbarth eu cael ar waith, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyson ledled Cymru

Rhaglen beilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol

Rydym wedi darparu £450,000 i gefnogi rhaglen beilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r Llys yn cynnig dull amgen i deuluoedd lle mae pryderon am gamddefnyddio sylweddau, drwy roi mynediad at driniaeth a chymorth dwys.

Cafodd y cynllun peilot ei lansio'n ffurfiol ar 25 Tachwedd 2021. Mae'r cynllun ar gael i deuluoedd sy'n cael eu cyfeirio gan awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, ac yn gweithredu o Lys Teuluol Caerdydd. Nod y llys fydd torri'r cylch o blant yn mynd i mewn ac allan o'r system ofal a helpu rhieni i ddod yn rhydd o gamddefnyddio sylweddau fel y gellir eu hailuno'n ddiogel â'u plant ac atal plant rhag cael eu rhoi mewn gofal.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso, a bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gyflwyno Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru yn y dyfodol.

Darpariaeth seiliedig ar Anghenion a Gwerth

Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Mae dileu elw o ofal yn un o'r 46 maes polisi a amlygwyd yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Ein barn ni yw na ddylai fod yna farchnad ar gyfer gwasanaethau plant lle mae cwmnïau preifat yn gwneud unrhyw elw o'r plant y maen nhw'n gofalu amdanynt. Byddwn yn sicrhau nad yw'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, yn cael eu contractio i gwmnïau er elw ond yn parhau gydag awdurdodau lleol neu ddarparwyr sydd wedi newid i fodolau nid-er-elw, fel darparwyr trydydd sector neu'r rhai a sefydlwyd drwy'r mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a darpariaethau dan arweiniad y defnyddiwr sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 2014.

Mae Gweinidogion wedi egluro mai cwmpas y gwaith yw tynnu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal gyda ffocws cychwynnol ar blant mewn gofal preswyl a gofal maeth. Yn ddiweddarach, bydd gwaith yn canolbwyntio ar ofal cartref i blant ag anghenion cymhleth, ac ar ddarpariaeth llety â chymorth. Bydd gwaith polisi a deddfwriaethol yn cael ei strwythuro mewn modd sy'n cwmpasu pob elfen.

Yn ystod tymor y Senedd hon, byddwn yn rheoli'r newid hwn tuag at wasanaethau maeth a gofal preswyl nid-er-elw yng Nghymru. Un egwyddor allweddol yw na fydd arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn llety ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal yn cael ei gymryd fel elw, ond yn hytrach ei fod yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant, gwella gwasanaethau a datblygu'r gweithlu.

Mae 'statws nid-er-elw', yn golygu math o berchnogaeth a rheolaeth lle bydd unrhyw arian dros ben a wnaed, ar ôl costau gweithredol a chostau eraill y cytunwyd arnynt, yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth neu'n cael ei ddal fel cronfa wrth gefn at ddibenion elusennol. Does dim disgwyl i gostau gweithredol gynnwys unrhyw daliadau am reolaeth neu ffioedd eraill a dalwyd i drydydd partïon. Mae amrywiaeth o fodolau nid-er-elw ar gael yr ydym yn eu harchwilio gan gynnwys statws elusennol, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol. Mae swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid i ddiffinio modelau addas, a fydd maes o law, yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth. Y bwriad polisi yw na fydd darparwyr er elw yn gallu gweithredu yng Nghymru na darparu ar gyfer plant nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar gynigion deddfwriaethol sylfaenol ar gyfer gofal cymdeithasol, dros ddeuddeg wythnos, rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys sawl cwestiwn ar sut gallai deddfwriaeth sylfaenol gefnogi ein cynlluniau i ddileu elw.

O'r 200 ymateb a dderbyniwyd, roedd 153 yn ymwneud â'r cwestiynau ar ddileu elw. Mae'r rhain wedi cael eu dadansoddi a'u hystyried bellach. Mynegwyd amrywiaeth

eang o safbwyntiau – gan unigolion, ymarferwyr, darparwyr, y sector cyhoeddus/statudol, y sector annibynnol, y trydydd sector/y sector gwirfoddol a sefydliadau cynrychioliadol – mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023.

O ystyried maint y gwaith sydd ei angen i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru. A key role of this Board is to ensure a safe transition, enabling local authorities to meet their statutory duties and avoid disruption to placements, build their resilience and enable existing for profit providers, who wish to do so, to adopt not for profit models of ownership. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys darparwyr gofal maeth a gofal preswyl preifat, awdurdodau lleol, y Comisiynydd Plant, ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd y Bwrdd yn llywio'r broses o newid i ofal nid-er-elw mewn ffordd ofalus ac wedi'i rheoli. Bydd y tair blynedd nesaf yn canolbwyntio ar weithio gyda phlant sydd â phrofiad o ofal, awdurdodau lleol a phartneriaid i gynyddu darpariaeth gyhoeddus ac nid-er-elw er mwyn sicrhau bod sylfaen gref i bontio'n ddiogel i ofal nid-er-elw.

Mae cyllid o £68m (dros y tair blynedd nesaf) wedi'i roi i awdurdodau lleol i ehangu darpariaeth fewnol ac nid-er-elw

Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Yn 2021-22, darparwyd cyllid o £4.8m i chwech o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) o'r Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu'r math hwn o ddarpariaeth. Mae cyllid yn cael ei gytuno ar hyn o bryd ar gyfer y BPRh sy'n weddill ym Mhowys, gyda disgwyl i'r ddarpariaeth fod yn ei lle tua diwedd 2023. Mae cyfanswm o 20 a mwy o welyau newydd wedi'u darparu. Yn ogystal, mae ein Cronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd yn rhoi modd ariannol parhaus i ranbarthau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn parhau.

Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrrion y system ofal.

Drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a thrwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rydym wedi nodi 13 prosiect gwerth cyfanswm o £14m a dulliau newydd ledled Cymru sydd o fudd i blant ag anghenion cymhleth, fel anabledd ac anghenion emosiynol/ymddygiadol, a fydd yn galluogi plant i aros yng ngofal eu teuluoedd.

Rydym yn adolygu eu cynnydd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod dysgu'n cael ei ledaenu. Mae comisiynu a chynllunio darpariaeth ar y cyd yn fwy helaeth yn hollbwysig, ochr yn ochr â llwybrau clir o ran cymhwysedd.

Cymorth Iechyd Meddwl

Rydym yn cydnabod y bydd ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal angen cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl ar adegau; cafodd hyn ei drafod fel rhan o'r Uwchgynhadledd ym mis Rhagfyr y llynedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd meddwl sy'n edrych ar wahanol fodolau gofal, ac mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i rannu arferion gorau mewn meysydd megis llety addas diogel. Mae Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant a phartneriaid eraill (e.e. yr Heddlu a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid) yn cydweithio'n agos er mwyn gwella canlyniadau i'r holl bobl ifanc ag anghenion cymhleth nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon i allu elwa ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a'r Glasoed (sCAMHS) ond sydd angen ymateb amlasiantaethol.

Mae nifer o enghreifftiau o arferion gorau yn digwydd yng Nghymru eisoes i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Er enghraifft: cynigion llety diogel a ariennir drwy weithredu rhanbarthol, a fydd yn darparu gwelyau tymor hwy ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny a fydd yn elwa o gymorth iechyd a gofal cymdeithasol amlddisgyblaeth i ddiwallu eu hanghenion; Windmill Farm sy'n darparu llety tymor canolig nes bod y llety diogel mwy hirdymor ar waith - dyma fodel y gellid ei efelychu o bosibl ledled Cymru; a chyflwyno'r fframwaith NYTH. Rydym hefyd yn cyflwyno nifer o brosiectau peilot ledled Cymru sy'n darparu darpariaeth 'noddfa' a chefnogaeth amlddisgyblaethol i blant a phobl ifanc sydd mewn argyfwng.

Cynorthwyo Maethu Cymru i gynyddu nifer ac amrywiaeth gofalwyr maeth.

Sefydlwyd Maethu Cymru fel rhwydwaith cenedlaethol cydweithredol o holl dimau maethu nid-er-elw Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae Maethu Cymru'n gweithio fel tîm gyda gofalwyr maeth i adeiladu gwell dyfodol i blant lleol drwy eu helpu i aros yn eu hardal leol pan fydd hynny'n iawn iddynt hwy. Mae Maethu Cymru wedi cynnal ymgyrchoedd marchnata uchel eu proffil ac rydym yn parhau i gefnogi seilwaith Maethu Cymru drwy drefniadau cyllido blynyddol.

Cysoni ffioedd a lwfansau ar gyfer gofalwyr maeth

Un elfen allweddol o raglen waith Maethu Cymru yw darparu cynnig cyson o gymorth i bob gofalwr maeth a elwir yn "Ymrwymiad Cenedlaethol". Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol. Yng Nghymru, mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yn darparu lefelau gwahanol o daliadau i'w gofalwyr maeth ar hyn o bryd. Felly mae gweithio i gysoni'r ffioedd a'r lwfansau a roddir i ofalwyr maeth yn flaenoriaeth.

Y Lwfans Gofynnol Cenedlaethol (LGC) yw'r lwfans craidd sylfaenol y mae gofalwyr maeth yn ei gael i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gofalu am unrhyw blentyn maeth. Y bwriad yw gosod meincnod ar gyfer cyfraddau talu i bob gofalwr maeth. Mae'r lwfans yn sicrhau y gellir cwrdd yn ddigonol â chostau sylfaenol gofalu am blentyn sy'n derbyn gofal. Bydd yr union lefel y bydd unrhyw ofalwr maeth yn ei derbyn yn dibynnu ar sawl ffactor, yn enwedig anghenion penodol y plentyn unigol.

Yn 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad cynhwysfawr o'r LGC fel rhan o'r gwaith ehangach sy'n cael ei wneud ar gysoni. Y bwriad yw y bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn gosod meincnod ar gyfer cyfraddau taliadau yn y dyfodol i bob gofalwr maeth. Roedd yr adolygiad yn cynnwys edrych ar y costau gwirioneddol sy'n

gysylltiedig â gofalu am blentyn, a'r effaith ar allu teulu maeth i ennill arian neu ddiwallu anghenion pob plentyn yn y tŷ.

Bydd newid lefelau a strwythur yr LGC yn effeithio ar y sector, felly mae angen ystyried unrhyw newidiadau arfaethedig yn ofalus, eu heffaith, sut byddant yn cael eu gweithredu ac yn bwysicaf oll, sut mae'r newidiadau'n cyd-fynd â'r amserlenni sy'n gysylltiedig â'r gwaith ehangach ar gysoni'r holl daliadau ar gyfer gofaluwr maeth.

Ar hyn o bryd mae Maethu Cymru'n gwneud darn penodol o waith modelu i helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad ynghylch strwythur a lefelau talu newydd ar gyfer y LGC. Mae'n datblygu'r modelu ariannol ar gyfer y lwfansau (ffioedd) ychwanegol fel y gellir cyfrifo costau symud o'r trefniadau talu presennol i gyfres newydd o drefniadau cyson.

Gorchymynion Gwarcheidiaeth Arbennig

Mae gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn orchymyn llys sy'n penodi person neu bersonau i fod yn warcheidwad arbennig i blentyn. Mae'n rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r gwarcheidwad arbennig am bron bob penderfyniad sy'n effeithio ar y plentyn ac yn cyfyngu ar hawliau rhieni geni i ymyrryd neu herio'r gorchymyn heb fynd i'r llys. Mae gwarcheidiaeth arbennig yn rhoi statws cyfreithiol sy'n cynnig mwy o ddiogelwch na maethu tymor hir, ond heb y toriad cyfreithiol llwyr gyda theulu biolegol y plentyn sy'n gysylltiedig â mabwysiadu.

Mae'r angen i leihau nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal ac sy'n parhau i dderbyn gofal yn ddiangen yng Nghymru yn gorfodi Llywodraeth Cymru i edrych ar sut gall gwarcheidiaeth arbennig ddod yn ganlyniad mwy diogel sy'n cael ei gefnogi i raddau mwy i blant a'u teuluoedd, gan wneud y gorchymyn yn opsiwn y gellir ei ystyried yn briodol mewn ymarfer gwerthuso lles.

Mae darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig yn amrywio ar hyd a lled y wlad. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu pecyn cymorth llawn, gan gynnwys cymorth gan gymheiriaid, mynediad at wasanaethau therapiwtig a dull dychmygus o helpu plant i gadw mewn cysylltiad neu dreulio amser gydag aelodau o'r teulu (cyswllt). Dim ond megis dechrau'r broses o greu system fwy pwrpasol o gefnogaeth i deuluoedd gwarcheidiaeth arbennig y mae awdurdodau lleol eraill. Mae'r system newydd hon yn wahanol i'r dull arferol o fynediad 'drws ffrynt' adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, ac mae ar gael i bob teulu cymwys drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ym mis Mawrth 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru fframwaith o gefnogaeth i Warcheidwaid Arbennig sy'n cyflwyno 'cynnig' Cymru gyfan o wasanaethau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig. Mae'n amlinellu'r isafswm a ddylai fod ar gael gan bob awdurdod lleol i gefnogi Gwarcheidwaid Arbennig er mwyn cydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio.

Yn ystod 2021-22, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad i sefydlu sut mae awdurdodau lleol wedi ymwreiddio'r canllaw ac i weld a oedd unrhyw awgrymiadau pellach ynghylch sut y gellir rhoi'r canllaw ar waith er mwyn sicrhau bod cynnig cyson o gymorth yn cael ei ddarparu i Warcheidwaid Arbennig ledled Cymru. Dangosodd yr

adolygiad fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod Gwarcheidwaid Arbennig yn cael eu cefnogi'n llawn yn ariannol ac yn ymarferol, fel y gallant ddarparu ar gyfer y plant maen nhw'n gofalu amdanynt.

Mae Grŵp Arbenigol yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd i ystyried yr argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad ac i lunio rhaglen waith er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd allweddol o bryder, gan sicrhau bod cynnig cyson o ofal a chefnogaeth i Warcheidwaid Arbennig sy'n cynnwys cymorth ariannol fel bod teuluoedd yn derbyn gofal priodol ac yn gallu aros gyda'i gilydd.

Model Ysgolion Rhithwir

Nod dull yr Ysgol Rithwir yw gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal (ac, mewn rhai achosion, pobl ifanc mewn darpariaeth ôl-16) ar draws awdurdod lleol fel pe baent mewn ysgol unigol, i godi cyrhaeddiad addysgol, gwella presenoldeb a gwella sefydlogrwydd addysgol. Mae Ysgol Rithwir yn offeryn sefydliadol sydd wedi'i greu i gydlynu cefnogaeth yn effeithiol i'r grŵp hwn ar lefel strategol a gweithredol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu cynllun peilot tair blynedd o'r Model Ysgolion Rhithwir ar hyd a lled Cymru, rhwng 2021-2024. Mae awdurdodau lleol wedi cael eu gwahodd i wneud cais am gyllid o hyd at £100,000 fesul awdurdod lleol, wedi ei rannu dros gyfnod o ddwy flynedd, i weithredu'r dull integredig hwn o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal (a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol).

Dros y flwyddyn nesaf, cynhelir gwerthusiad o'r Model Ysgolion Rhithwir, gan edrych ar y broses o roi'r cynllun peilot ar waith, effaith y cynllun a'i werth am arian.

Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru

Ar 28 Mehefin 2022, lanswyd cynllun peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn ffurfiol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru. O 1 Gorffennaf 2022 ymlaen, bydd mwy na 500 o bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru, sy'n cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, yn cael cynnig £1,600 bob mis (cyn treth) am ddwy flynedd i'w cynorthwyo wrth iddynt bontio i fywyd oedolyn. Ar ôl treth, y swm y bydd pob derbynnydd yn ei gael bob mis yw £1,280. Gall y rhai sy'n gadael gofal sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot gael cyngor a chymorth ariannol hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am y cynllun, eu cyllid a'u dyfodol.

Ar hyn o bryd mae 98% wedi ymuno â'r cynllun peilot (yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r rhai sy'n gymwys gan awdurdodau lleol).

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys y rhai sy'n gadael gofal yn uniongyrchol wrth ddatblygu'r peilot, yn ogystal â gweithio gyda gweithwyr proffesiynol mewn awdurdodau lleol a sefydlu Grŵp Cynghori Technegol hefyd, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Michael Marmot, gan ddwyn ynghyd arbenigwyr ym meysydd incwm sylfaenol a chymorth i bobl sy'n gadael gofal i lywio'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r cynllun peilot.

Prif werthuswr y cynllun peilot yw Prifysgol Caerdydd dan arweiniad Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) y Brifysgol. Mae gan y

tîm gwerthuso arbenigedd ym maes gadael gofal, tlodi a lles, digartrefedd, iechyd, epidemioleg, incwm sylfaenol, gwerthuso economaidd, cysylltu data, econometreg a methodolegau ansoddol creadigol. Bydd y gwerthusiad yn edrych ar ddull gweithredu'r cynllun peilot, effaith y cynllun a'i werth am arian. Mae gwaith cyfranogol a chyd-greu gyda phobl ifanc a'r cyfranogwyr yn ganolog i gynllun y gwerthusiad.

Bydd yr hyn a ddysgir o'r cynllun peilot, adolygiad clir a chyfres o argymhellion yn cael eu paratoi. Bydd hyn yn caniatáu i wersi gael eu dysgu, a fydd o fudd i'r rhai sy'n gadael gofal a phoblogaeth ehangach Cymru.

Diwygio Cyfiawnder Teuluol

Mae llawer o'r materion sy'n ymwneud â chyfiawnder teuluol yn berthnasol yn uniongyrchol i'n hagenda trawsnewid Gwasanaethau Plant, er enghraifft achosion lle mae awdurdod lleol yn ymyrryd i amddiffyn plant sydd wedi neu yr amheuir eu bod wedi dioddef niwed neu gamdriniaeth sylweddol.

Felly mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio ag Adrannau Llywodraeth y DU ac asiantaethau Llywodraeth y DU er mwyn helpu i sicrhau bod polisïau'n cael eu datblygu a'u cyflawni'n briodol yng Nghymru gan ystyried cyd-destun Cymru. Mae cynllun peilot y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn enghraifft o weithio'n effeithiol gyda Lloegr.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys cynrychiolaeth o Gymru ar y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (PLWG). Ffurfiwyd PLWG, cyn pandemig COVID-19, i ymchwilio i'r cynnydd sylweddol mewn achosion cyfraith gyhoeddus sy'n dod i'r Llys Teulu ac i gynnig argymhellion ar gyfer gwella gallu'r system i fynd i'r afael ag anghenion y plant a'r teuluoedd yng nghanol yr achosion pwysig hyn.

Mae gwaith y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru, drwy ganolbwyntio ar y posibilrwydd o ddargyfeirio plant a phobl ifanc yn ddiogel oddi wrth fod yn destun achosion cyfraith gyhoeddus (ac felly dileu'r posibilrwydd y cânt eu rhoi mewn gofal), a bod prydlondeb penderfyniadau, unwaith y byddant yn destun achosion, yn cyd-fynd ag amcanion PLWG.

O ran cyfraith breifat, sefydlwyd y Gweithgor Cyfraith Breifat i gynghori'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ar gynigion ar gyfer diwygio cyfraith breifat yn sylweddol, ac mae Cymru'n ymwneud â hyn drwy'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru. Prif nod y Gweithgor oedd hyrwyddo dulliau anwrthwynebus /datrys problemau. Fel rhan o'r cynllun hwn, mae ardal Cyfiawnder Teuluol Gogledd Cymru yn un o ddau safle braenaru (ochr yn ochr â Dorset) i brofi a gwerthuso Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig.

Pwrpas y cynllun peilot Braenaru (Llys Cam-drin Domestig Integredig (IDAC)) yw profi buddion ymyrraeth yn llawer cynt yn y cylch cyfreithiol, rhoi plant yng nghanol y broses, blaenoriaethu dull diogelwch yn gyntaf gan gynnwys goroeswyr cam-drin domestig, a dargyfeirio teuluoedd oddi wrth y llys lle y bo hynny'n bosibl, gan gydnabod yr un pryd y bydd rhai teuluoedd angen ymwneud pellach â'r llys teulu.

Rhaglen Trawsnewid - Llywodraethu

Er mwyn cyflwyno rhaglen mor hanfodol, mae angen i ni roi'r lefel gywir o lywodraethu ar waith. Rydym wedi cymryd agwedd tair haen o ddarparu'r cyfeiriad a'r dull craffu cywir i gyflawni ein nodau. Mae gan y strwythur dri grŵp allweddol:

- i. **Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol** i oruchwylio'r Rhaglen Trawsnewid, gan ddarparu arweinyddiaeth wleidyddol a chyfeiriad i'w gadeirio gan y Prif Weinidog a minnau
- ii. **Grŵp Cyflawni Trawsnewid** i arwain y gwaith o fwrw ymlaen â'r Rhaglen Trawsnewid erbyn 2026. Jonathan Griffiths, Cyfarwyddwr Trawsnewid Plant ac Oedolion, sy'n cadeirio'r Grŵp hwn.
- iii. Bydd **Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw o Ofal Plant sy'n Derbynn Gofal** yn parhau i ddarparu arbenigedd ychwanegol wrth i ni ystyried tystiolaeth, deddfu a datblygu rhaglenni ymarferol ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad hwn.

Sefydlu Tîm Cenedlaethol

Mae Jonathan Griffiths, a fu gynt yn Llywydd ADSSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Benfro, wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Trawsnewid Plant ac Oedolion. Ochr yn ochr â Jonathan, bydd Anthony Douglas, cyn brif weithredwr CAF/CASS Lloegr, fel arweinydd Gweithredu Trawsnewid Plant, yn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau gan weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol yn enwedig iechyd, gan ddarparu gallu ychwanegol i sicrhau newidiadau allweddol a chysondeb mewn ymarfer.

Buddsoddiad

Rydym yn deall bod angen buddsoddi er mwyn datblygu'r Rhaglen hon o newid ac ymateb i'r her o niferoedd cynyddol o blant yn derbyn gofal.

Mae gennym gyllideb refeniw o £68m dros y tair blynedd nesaf (£46m ar gyfer yr ymrwymiad Dileu a £22m ar gyfer ein hymrwymiad Diwygio Radical). Mae cyllid cyfalaf ar gael gan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu (IRCF) hefyd. Mae £35m ar gael yn 23/24 a £60m yn 24/25 i gefnogi'r agenda dileu elw yn uniongyrchol ochr yn ochr â datblygu hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac ailgydbwysu'r farchnad gofal preswyl i oedolion

Gweler isod enghreifftiau o'r cyllid gwasanaethau cymdeithasol y cytunwyd arno er mwyn bwrw ymlaen â'n gwaith yn y maes hwn.

Dileu Elw	£46m dros dair blynedd 2022/23 – 2024/25 Cyfalaf – mynediad at £35m yn 23/24 a £60m yn 24/25 gan yr IRCF.
Diwygio Radical	£22m dros dair blynedd 2022/23 – 2024/25
Eiriolaeth Rhieni	£1.5m dros dair blynedd 2023/24 – 2025/26

Cymorth ar gyfer Maethu Cymru	£0.5m cyllid craidd rheolaidd. Mae cyllid ychwanegol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ar gyfer tair blynedd 2022/23-2024/25
Siarter Rhianta Corfforaethol	£15,000 y flwyddyn – 2022/23 – 2024/25
Plant ag Anghenion Cymhleth	£14m dros dair blynedd drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Gweithlu

Bydd bwrw ymlaen ag unrhyw ran o'r gwaith hwn yn her heb gymorth ychwanegol i'r gweithlu gofal cymdeithasol ac yn enwedig gweithwyr cymdeithasol. Y llynedd, cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru Gynllun Gweithlu ar gyfer Gwaith Cymdeithasol: 2022 i 2025. Mae'r cynllun gweithlu'n mynd i'r afael â materion fel denu a recriwtio, addysg a dysgu, arweinyddiaeth a lles, ac yn adlewyrchu gwaith sy'n digwydd eisoes, fel pwysigrwydd edrych ar delerau ac amodau a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r fframwaith ôl-gymwysterau.

Gyda chymorth cyllid gan Ofal Cymdeithasol Cymru, mae ADSS Cymru'n arwain y gwaith o adolygu costau gweithwyr asiantaeth mewn gwasanaethau plant, gan ddwyn syniadau ynghyd ynghylch gwaith asiantaeth mewn cyfres o argymhellion i awdurdodau lleol eu hystyried, ac sy'n gysylltiedig â memorandwm cydweithredu.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r fwrariaeth gwaith cymdeithasol yn ddiweddar hefyd, er mwyn annog mwy o bobl i hyfforddi fel gweithwyr cymdeithasol. Mae'r fwrariaeth gwaith cymdeithasol yn cyfateb i becyn gwerth bron i £10 miliwn mewn cymorth ariannol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol dros dair blynedd. Roedd y fwrariaeth uwch ar gael i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr presennol o fis Medi 2022 ymlaen a chynyddodd y fwrariaeth israddedig £1,250 (+50%), a'r fwrariaeth ôl-raddedig £6,075 (+91%).

Rydym yn parhau i ddarparu cronfeydd sylweddol, dros £7.1m, i'r sector ar gyfer hyfforddiant a datblygiad, drwy Raglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, a reolir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Hefyd, mae Gofalwn Cymru, ymgyrch denu a recriwtio genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol, wedi tynnu sylw at rôl gweithwyr cymdeithasol drwy rannu straeon ysbrydoledig go iawn ar ei wefan a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol gyda'r nod o ddenu mwy o bobl i'r proffesiwn.

Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Trawsnewid – amserlenni

Ynghlwm yn Atodiad A mae dogfen y Ffordd Ymlaen, sy'n nodi'r amserlenni disgwyliedig cyfredol ar gyfer ein cynnydd gydag ymrwymadau Gwasanaethau Plant ein Rhaglen Lywodraethu a'r gwaith o'u cyflawni.

Cerrig Milltir ein Rhaglen Drawsnewid

2023

2024

2025

2026

Cefnogi plant i aros gyda theuluoedd

Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol newydd Sefydlu grŵp arbenigol (Chwef 2023) Cydgynhyrchu cynnwys ⚙️ Drafft cyntaf y Fframwaith (Haf 2023) Ymgynghori (Haf 2023) Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Chyflwyno (Diwedd 2023)

Eiriolaeth rhieni Cymeradwyo'r Fframwaith Eiriolaeth Rhieni Dechrau ei gyflwyno'n genedlaethol – Ebrill 2023

Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) Parhau i gefnogi cynllun peilot FDAC Cefnogi cam olaf gwerthusiad cynllun peilot FDAC ⚙️ Ystyried ei gyflwyno'n genedlaethol (gwanwyn 2024)

Cefnogi cydweithio amlasiantaethol Gweithdy amlasiantaethol - dysgu ar y cyd (gwanwyn 2023)

Dadpariaeth ar sail anghenion a gwerthoedd

Cyflwyno'r Model Ysgolion Rhithwir Digwyddiad dysgu ar y cyd (hydref 2023) Gwerthuso'r cynllun peilot Ysgolion Rhithwir

Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig Cwblhau'r arolwg (Rhagfyr 2022) Sefydlu grŵp arbenigol (gwanwyn 2023) Dadansoddi argymhellion yr arolwg (Cwblhau erbyn diwedd 2023) Datblygu cynllun gweithredu

Datblygu Maethu Cymru Adolygiad o'r Fframwaith Dysgu a Datb. (Ion 2023) Lwfans uwch a lansio cynllun cened. cyfeirio ffrind (gwanwyn 2023) Cynnig Craidd/Ymrwymiad Cenedlaethol (haf 2023) Datblygu pecyn adnodd (o Awst 2023) O bosib, cyflwyno harmoneiddio ffioedd (gwanwyn 2024) Swyddog recriwto penodol i bob ALI (erbyn gwanwyn 2024)

Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a rhoi cyngor i'r Gweinidog (gwanwyn 2023) Gweithio ar gynllun gweithredu a deddfwriaeth (gwanwyn 2023) Cyfarfodydd I drafod Strategaethau Comisiynu Lleoliadau yr ALIau (2023) ⚙️ Dechreuwy'r newydd– Nid-er-elw yn unig (Ebrill 2026)

Llais plant a phobl ifanc

Uwchgynadledd profiad o ofal ⚙️ Uwchgynhadledd gyntaf (Rhag 2022) Llofnodi datganiad yr uwchgynhadledd a dechrau gwaith i gefnogi gweithredu ⚙️ Ail uwchgynhadledd (Rhagfyr 2023)

Rhianta corfforaethol ⚙️ Lansio'r siarter a'i llofnodi ar draws y sector (gwanwyn 2023) ⚙️ Canllawiau statudol cryfach yn dod i rym (gwanwyn 2024)

Gweithio gydag ymarferwyr Digwyddiad i ymarferwyr i rannu arferion gorau (haf 2023)

Mae Cafcass Cymru yn darparu gwasanaeth statudol ar ran Gweinidogion Cymru yn y system cyfiawnder teuluol sydd heb ei datganoli yng Nghymru drwy Ddeddf Plant 2004. Mae'r gwasanaeth yn rhan o Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Dim ond pan gawn ein gorchymyn gan y llys i wneud hynny y byddwn yn dod yn rhan o fywydau plant a phobl ifanc ac rydym yn darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn diogelu plant. Rhan hanfodol o'n rôl yw sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn y llysoedd teulu a bod eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cyfleu'n glir fel y gellir gwneud penderfyniadau sy'n hyrwyddo eu buddiannau lles pan fyddant o dan oed.

Amrywiadau mewn cyfraddau gofal

Sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Mae gennym ddiddordeb yn y rhesymau dros y cyfraddau gofal amrywiol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru, hyd yn oed ar ôl cymryd amddifadedd i ystyriaeth. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y gwahaniaeth mawr mewn cyfraddau gofal rhwng Cymru a Lloegr a nodwn y cyfraddau uwch o blant yng Nghymru sy'n aros gyda'r teulu ond sy'n destun gorchymyn gofal. Sut mae'r 'meini prawf trothwy' ar gyfer niwed arwyddocaol yn cael eu profi.

Ymateb Cafcass Cymru

Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio yn ardaloedd y 22 awdurdod lleol yng Nghymru a dim ond yr achosion hynny sy'n ymddangos gerbron y llys y mae gennym brofiad ohonynt, nid y rhai a gaiff eu rheoli gan awdurdodau lleol. Yn ôl ein hymarferwyr, mae'r achosion sy'n ymddangos gerbron y llys yn bodloni'r trothwy niwed arwyddocaol a nodir mewn deddfwriaeth. Os na chaiff y trothwy hwn ei fodloni, ni fydd y mater yn parhau gerbron y llys ond, yn ein profiad ni, prin iawn yw'r achosion nad ydynt yn bodloni'r trothwy sy'n ymddangos gerbron y llys. Mae gan ein hymarferwyr ddyletswydd i ystyried pob opsiwn hyfyw sydd ar gael i'r llys a gwneud argymhellion lles ar sail amgylchiadau unigol pob plentyn a pherson ifanc gan

ystyried eu hanghenion nawr ac yn y dyfodol a ph'un a all, a sut y gall, y cynllun sydd gerbron y llys ddiwallu'r anghenion hynny.

Rydym yn llwyr gefnogi rhaglen waith barhaus Llywydd yr Is-adran Teuluoedd a'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus yr ydym yn rhan ohono, sy'n ein galluogi i fod yn eiriolwyr cryf i blant a phobl ifanc yng Nghymru. O ganlyniad, mae ein hymarferwyr yn ymwybodol o'r holl arweiniad a gyhoeddwyd a sut y dylid ei roi ar waith wrth wneud argymhellion i'r llys mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae adroddiad terfynol y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (Mawrth 2021) yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn gan ei fod yn cynnwys neges glir:

'Rhaid i achosion llys fod yn angenrheidiol ac yn gymesur, opsiwn i'w ddewis pan fetha popeth arall, rhaid bod yn glir ynghylch pam mae'r cais yn cael ei wneud, pam nawr'.

'os bodlonir y trothwy, nid yw bob amser yn gywir nac yn gymesur trefnu cyfarfod porth/cynllunio cyfreithiol'.

Mae disgwyl i awdurdodau lleol ystyried sut y gellir rheoli'r risg hon mewn ffordd wahanol i achos llys.

- Mae Cafcass Cymru yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau amrywiol i reoli eu hadnoddau. Gall hyn arwain at amrywiadau yn y gwasanaethau cyn-achos a ddarperir ac yn y modd y caiff proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) ei rhoi ar waith.
- Caiff yr amrywiadau a ffyrdd o weithredu'r PLO eu cydnabod yn eang. Deallwn fod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cynnal adolygiad thematig o sawl awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn darparu gwaith craffu allanol a sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau i ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun prosesau cyn-achos y PLO. Ar ôl cwblhau'r adolygiadau, deallwn y bydd AGC yn cyhoeddi adroddiad cyffredinol ar ei chanfyddiadau.

- Cynhaliodd Cafcass Cymru archwiliad thematig o achosion cyfraith gyhoeddus ym mis Tachwedd 2020 a oedd yn edrych ar 75 o geisiadau gofal (yr oeddem yn rhan ohonynt) a wnaed yn ystod mis Mawrth 2020 ac yn ystyried yn fanwl brofiad 131 o blant cyn, yn ystod ac ar ôl i achosion ddod i ben. Ystyriwyd unrhyw themâu a ddaeth i'r amlwg cyn cloi gydag argymhellion i wella ymarfer ac ystyried beth y gellid ei wneud yn wahanol er mwyn dargyfeirio plant yn ddiogel oddi wrth y llys.
- Yn ôl ein canfyddiadau allweddol, gwnaed 38 o geisiadau (51%) lle nad oedd yr awdurdod lleol wedi dechrau proses y PLO. Daethom i'r casgliad y gallai 31% o'r plant hynny na fu'n destun PLO fod wedi cael budd o gael eu hamddiffyn ynghynt. Roedd y cyfleoedd a gollwyd i'w hamddiffyn yn deillio'n bennaf o deuluoedd a oedd wedi bod yn hysbys i'r awdurdod lleol ers mwy na dwy flynedd gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio a'u cau yn fynych a lle nad oedd yn ymddangos bod unrhyw drosolwg na dadansoddiad o effaith yr esgeulustod / camdriniaeth barhaus ar y plant.
- Credwn fod gwaith PLO cyn-achos cadarn yn hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau da ac amserol er budd plant a phobl ifanc.
- Os oes cynllun i blentyn neu berson ifanc aros neu ddychwelyd gartref o dan orchymyn / heb orchymyn, byddai ein hymarferwyr yn disgwyl i weithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol werthuso'r holl opsiynau sydd ar gael i'r llys. Dylai'r gwerthusiad hwn gynnwys dadansoddiad trylwyr ac ymarfer i gydbwysu'r holl opsiynau. Mae'n rhaid i'n hymarferwyr ddarparu dadansoddiad o'r cynlluniau realistig a gwneud argymhellion dilynol i'r llys.
- Cyhoeddodd y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus arweiniad clir ar gamddefnyddio gorchmynion gofal yn y cartref gan nodi bod yn rhaid i'r rhesymau fod yn eithriadol. Yn ôl ein hymarferwyr, mae llai o blant yn destun gorchmynion gofal yn y cartref, ac mae'r llys yn craffu mwy ar gynlluniau o'r fath erbyn hyn. Rydym yn gobeithio y bydd lansio'r arweiniad arfer gorau a ddatblygwyd gan y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus ar orchmynion goruchwylio (*Recommendations to achieve best practice in the child protection and family justice systems: Supervision orders October 2022*), ynghyd â Chynlluniau Gofal a Chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn sicrhau lleihad pellach yn nifer y plant sy'n destun gorchmynion gofal yn y cartref.

- Gan weithio gydag awdurdodau lleol a'r farnwriaeth, gwnaethom ddatblygu'r protocol ledled Cymru ar gyfer rhyddhau plant a phobl ifanc o orchmynion gofal yn gyflymach. Yn sgil hyn, llwyddwyd i gwtogi hyd achosion llys, lleihau nifer y gwrandawiaidau llys a sicrhau canlyniadau mwy amserol i'r plentyn/person ifanc.
- Yn ôl ein hymarferwyr, mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o drefniadau cynadledda grŵp teulu ac maent wedi cael profiadau lle defnyddiwyd y trefniadau hyn yn gadarnhaol gan arwain at ganlyniadau gwell i deuluoedd. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu cynlluniau gofal a chymorth cadarn wedi arwain at lai o geisiadau am orchmynion a llai o orchmynion yn cael eu gwneud. Mae hyn yn galonogol ond mae'n anghyson ledled Cymru.

Achosion Cyfraith Gyhoeddus

Sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: *Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) ac ansawdd y gwaith cyn-achos a wneir gyda theuluoedd, y gofyniad statudol i gwblhau achosion cyfraith gyhoeddus o fewn 26 wythnos, effaith ail-lansio'r PLO a ph'un a yw'n effeithio ar yr amser sydd ar gael i gwblhau asesiadau rhianta cymhleth gyda rhai teuluoedd.*

Ymateb Cafcass Cymru

Mae Cafcass Cymru yn croesawu penderfyniad Llywydd yr Is-adran Teuluoedd i ail-lansio'r PLO a'r ymgyrch i sicrhau canlyniadau cywir ac amserol i blant a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod hefyd y gall achosion fod yn gymhleth ac yn amlochrog gan gynnwys ffactorau allanol sy'n effeithio ar ba mor gyflym y gellir eu cwblhau. Er ei bod yn briodol i rai achosion gymryd mwy o amser, dylai'r llys eu hamserlennu'n briodol a chanolbwyntio ar sicrhau'r canlyniad cywir i bob plentyn a pherson ifanc unigol, hyd yn oed os bydd hyn yn cymryd mwy na 26 wythnos.

- Mae Cafcass Cymru yn ymwybodol iawn o'r anawsterau sy'n wynebu rhai awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol, a gall hyn effeithio ar y gallu i gwblhau asesiadau'n brydlon. Gall hyn hefyd orfodi rhai awdurdodau lleol i ddiwynnu ar weithwyr cymdeithasol annibynnol i gynnal asesiadau ar eu rhan, a all arwain at fwy o oedi.

- Yn ôl ein hymarferwyr, mae rhai enghreifftiau ardderchog o waith cyn-achos o ansawdd o fewn y PLO yng Nghymru ond nodir hefyd anghysondebau mewn ymarfer rhwng ac o fewn awdurdodau lleol.
- Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom ni a Cafcass (Lloegr) gynnal archwiliad cyfochrog o achosion gofal yng Nghymru a Lloegr, yn y drefn honno, a oedd wedi para mwy na 48 wythnos. Gwnaethom nodi 42 o achosion yr oeddem yn rhan ohonynt a oedd yn bodloni'r meini prawf hyn: nifer cymharol fach o gymharu â'r 1414 yn Lloegr. Roedd y canfyddiadau wedi rhoi cipolwg cryno o'r rhesymau dros yr oedi ac wedi tynnu sylw at gymhlethdod yr achosion gerbron y llys a'r materion aciwt sy'n effeithio ar fywydau plant sy'n rhan o achosion cyfraith gyhoeddus. Dangosodd canlyniadau archwiliad Cymru y canlynol:
 - nodwyd **nad oedd canlyniadau asesu wedi cael eu cwblhau** mewn **19** o achosion (**45%**)
 - nodwyd bod **15** o achosion (**36%**) yn **aros am leoliad terfynol**
 - nodwyd bod **5** achos (**12%**) yn cynnwys **cymhlethdodau rhyngwladol**
 - nodwyd **achosion troseddol cyfochrog** mewn **3** achos (**7%**).
- Wrth ail-lansio'r PLO yn ddiweddar, pwysleisiwyd na ddylid ystyried asesiadau gan arbenigwyr oni bai eu bod yn gwbl angenrheidiol a bod eu hangen er mwyn datrys yr achos yn gyfiawn. Dylai'r newid pwyslais hwn helpu i ailgydbwysu statws gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol a gwarcheidwaid a gaiff eu hystyried yn '*arbenigwyr*' o fewn y llys teulu.
- Mae ein hymarferwyr yn cydnabod yr effaith a gaiff ffactorau allanol ar allu unrhyw asesydd i ystyried yr holl ffactorau risg a gwybodaeth yn gywir. Er enghraifft, dibynnir yn aml ar wybodaeth gan weithwyr iechedd proffesiynol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf ac, yn gynyddol, gofnodion cyfryngau cymdeithasol rhieni er mwyn dod i gasgliadau a gwneud argymhellion ond gall y wybodaeth hon fod yn hwyr neu gall fod yn rhy swmpus, gan effeithio ar amserlenni.
- Mae ail-lansio'r PLO yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydymffurfio ag amserlenni'r llys er budd pennaf plant a phobl ifanc sy'n aros am benderfyniadau sefydlogrwydd ar eu dyfodol. Wrth ail-lansio'r PLO, heriodd aelodau o'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector i beidio â pharhau i dderbyn oedi ac i fod yn ymwybodol o'r effaith a gaiff ar blant, eu teuluoedd, gwasanaethau a'r llysoedd.

- Rydym yn cydnabod y cydbwysedd sensitif o ran sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i gynnal asesiadau cadarn heb eu brysio a deall yr angen i sicrhau canlyniad amserol i'r plentyn neu'r person ifanc a chanolbwyntio ar ei anghenion unigol. Yn ôl ein hymarferwyr, caiff achosion sy'n gwneud cais am oedi pwrpasol cyn gwneud penderfyniad er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc eu hystyried yn ffafriol gan y Llys a'u cefnogi gan amserlen estynedig. Fodd bynnag, byddai ein hymarferwyr hefyd yn cydnabod achosion lle mae pethau wedi cael eu gadael i lithro, gan arwain at oedi diangen, sy'n annerbyniol. Rydym yn cefnogi argymhellion Adolygiad Ymarfer Plant Logan Mwangi a gyhoeddwyd gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i'w rhoi ar waith.

Rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: ein barn ar dystiolaeth gref iawn a glywsom fod rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu stigma a bod eu gallu fel rhieni yn cael ei ragfarnu'n negyddol yn ystod asesiadau gweithwyr cymdeithasol.

Ymateb Cafcass Cymru

Nid yw Cafcass Cymru yn casglu gwybodaeth am rieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel mater o drefn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hynny'n werthfawr ac rydym yn ystyried ffyrdd y gallem wneud hynny yn y dyfodol.

- Rhan o rôl ymarferwyr Cafcass Cymru yw craffu ar gynlluniau ac asesiadau gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod yr asesiadau i gyd yn gytbwys ac yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol.
- Os ystyrir bod yr adroddiadau/asesiadau yn rhagfarnu ac yn negyddol am fod gan y rhiant sy'n rhan o'r achos gofal brofiad o fod mewn gofal ei hun, byddem yn disgwyl i'n hymarferwyr ddwyn hyn i sylw'r llys.

Y gweithlu

Sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: *Y graddau y caiff pwysau ar staff, llwyth gwaith a throsiant mewn gwasanaethau plant awdurdodau lleol effaith ar achosion cyfraith gyhoeddus ac ym mha ffordd (os yw hynny'n berthnasol).*

Ymateb Cafcass Cymru

Mae Cafcass Cymru yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol, a all beri oedi annerbyniol i blant a phobl ifanc cyn ac yn ystod achosion. Rydym ninnau hefyd yn ei chael hi'n anodd recriwtio gweithwyr cymdeithasol profiadol i weithio fel ymarferwyr.

- Mae'n amlwg bod recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol, yn enwedig rhai sydd â phrofiad o waith achosion gofal, yn her i rai awdurdodau lleol. Gall hyn olygu y bydd gweithwyr cymdeithasol dynodedig yn newid sawl gwaith cyn ac yn ystod achosion a all effeithio ar amserlenni. Yn fwy arwyddocaol i deuluoedd, gall hyn olygu bod yn rhaid iddynt feithrin cydberthnasau â gweithwyr newydd ac ailadrodd gwybodaeth.
- Gall trosiant ymhlith gweithwyr cymdeithasol effeithio ar ansawdd a lefel y gwaith a wneir cyn achosion. Dylai achosion fod yn barod ac, yn aml, mae realiti anawsterau staffio awdurdodau lleol yn golygu bod asesiadau weithiau'n anghyflawn a bod angen eu cynnal eto yn ystod achosion, a all arwain at oedi.
- Gall newid gweithiwr cymdeithasol arwain at ddiffyg parhad i blentyn neu berson ifanc a gall olygu mai ymarferydd Cafcass Cymru yw'r ffigur mwyaf cyson yn ystod achosion. Mae'n eithriadol o bwysig bod gan y llys ddealltwriaeth lawn a manwl o ddymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn gallu gwneud penderfyniadau am ei ddyfodol.

Lleoliadau

Sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: *Ansawdd, gofal ac argaeledd i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau maeth yng Nghymru. Cartrefi gofal anghofrestredig i blant yng Nghymru, y graddau y cânt eu defnyddio a faint o bryder sydd gennych am eu defnydd.*

Ymateb Cafcass Cymru

Mae Cafcass Cymru yn ymwybodol o'r anawsterau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i leoliadau llety priodol i blant a phobl ifanc.

- Mae ein hymarferwyr yn poeni am y defnydd cynyddol a wneir o leoliadau anghofrestredig ledled Cymru a'r effaith a gaiff hyn ar blant a phobl ifanc, eu hiechyd, eu haddysg, eu sefydlogrwydd a'u hanghenion unigol.
- Er bod ein hymarferwyr yn ymwybodol o achosion lle mae lleoliadau anghofrestredig **byrdymor** wedi diwallu eu hanghenion uniongyrchol, dylid nodi nad yw'r lleoliadau hyn yn bodloni gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Rydym yn cydnabod bod prinder lleoliadau diogel arbenigol i blant a phobl ifanc a bod hyn yn effeithio ar eu diogelwch.
- Mewn dyfarniad diweddar gan Lywydd yr Is-adran Teuluoedd (Par: X – Llety Diogel: diffyg darpariaeth) a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2023, nodwyd bod diffyg lleoliadau diogel yn broblem yng Nghymru a Lloegr sy'n aml yn arwain at fwy o ddefnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid o dan Awdurdodaeth Ymlynol yn yr Uchel Lys a'r defnydd o lety anghofrestredig.

Gwasanaethau Eirioli

Sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: *y ddarpariaeth Eiriolaeth Rhieni ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i blant a phobl ifanc a'i heffaith ar achosion Cyfraith Gyhoeddus.*

Ymateb Cafcass Cymru

Mae Cafcass Cymru wedi cael profiadau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc ac yn ddiweddar, rydym wedi datblygu protocol gweithio ar y cyd â darparwyr eiriolaeth yng Nghymru sy'n amlygu pob un o'n rolau a'n cyfrifoldebau a sut rydym yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

- Gall eiriolwyr fod yn rhan hirdymor o fywyd plentyn (cyn ac ar ôl achosion) a gall y cydberthnasau proffesiynol y maent yn eu datblygu â phlant a phobl ifanc fod yn amhrisiadwy er mwyn gallu deall eu dymuniadau a'u teimladau a helpu i'w cyfleu'n gywir i'r llys.

- Er y caiff rhieni eu cynrychioli'n gyfreithiol o ddechrau proses y PLO, rydym yn croesawu menter Llywodraeth Cymru i gefnogi camau i gyflwyno gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i rieni yn ystod y cam cyn-achosion ac yn y llys.

Rhianta corfforaethol

Sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Eich barn ar y cymorth a geir gan asiantaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Ymateb Cafcass Cymru

Yn ein profiad ni, mae gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth dda o'u rôl fel rhiant corfforaethol. Fodd bynnag, yn ôl ein hymarferwyr, gallai asiantaethau wneud mwy ar adegau i ddiwallu anghenion arbenigol a chymhleth plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rydym yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddyletswydd sydd ar asiantaethau i gefnogi plant/pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn enwedig gwasanaethau iechyd.

CYPE(6)-08-23 - Papur i'w nodi 1

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

28 Chwefror 2023

Materion tai sy'n wynebu rhieni geni a'r rhai sy'n gadael gofal

Annwyl John,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi'n cynnal ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ein hymchwiliad wedi'i ysgogi gan leisiau plant a phobl ifanc. Rydym yn benderfynol y bydd eu safbwyntiau a'u profiadau yn llywio ein hadroddiad terfynol a'i argymhellion.

Yn ystod yr hydref, fe wnaethom gynnal ymweliadau ymgysylltu anffurfiol ledled Cymru i siarad â rhieni geni (rhieni sydd wedi cael/sydd yn y broses o gael plentyn wedi'i dynnu o'u gofal) – llawer ohonynt â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain – ac â'r rhai sy'n gadael gofal am eu profiadau o'r system ofal a'u safbwyntiau yn ei chylch. Ar 26 Ionawr, cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid gyda rhieni geni i ategu ein hymweliadau ymgysylltu er mwyn rhoi cyfle i gynifer o rieni ifanc â phosibl gyfrannu at ein gwaith.

Roedd llawer o'r pethau a ddywedodd y bobl ifanc wrthym yn peri gofid a phryder mawr. Hoffwn godi un o'u pryderon gyda chi'n benodol: mae prinder difrifol yn genedlaethol o dai a fflatiau bach (un/dwy ystafell wely) o ansawdd uchel ar gyfer rhieni geni a'r rhai sy'n gadael gofal. Rydym wedi clywed bod y prinder hwn yn peri cynnydd yng nghyfraddau'r plant sydd mewn gofal yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae gan awdurdodau lleol - gan gynnwys eu hadrannau tai - gyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rydym yn pryderu ei bod yn bosibl bod awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd i gyflawni eu rhwymedigaethau rhianta corfforaethol mewn perthynas â darparu llety i blant ar ôl iddynt adael y system ofal.

Rwy'n tynnu sylw isod at rai o'r heriau penodol sydd wedi'u codi gyda gan rieni geni, y rhai sy'n gadael gofal a staff sy'n gweithio gyda nhw.

Rhieni geni

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Gall diffyg llety diogel, hirdymor o ansawdd gyfrif yn erbyn rhieni geni mewn achosion llys. Bydd llys yn ystyried a oes gan rieni geni lety addas, hirdymor ar eu cyfer nhw a'u plant wrth benderfynu a ddylai plant aros gyda rhiant neu rieni. Bydd hefyd yn ystyried a oes gan riant geni unrhyw rwydwaith cymorth o fewn cyrraedd agos. Os nad yw rhieni geni yn gallu sicrhau llety hirdymor addas yn agos at deulu a ffrindiau, neu, yn waeth, os nad ydynt yn gallu sicrhau llety hirdymor addas o gwbl, bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y tebygolrwydd y bydd plentyn yn cael ei dynnu o ofal ei rieni.

Mae'r heriau hyn yn waeth ar gyfer rhai rhieni geni sy'n cael eu gorfodi i fynd i ganolfannau asesu rhieni (cyfeirir atynt weithiau fel unedau mamau a babanod). Pwrpas canolfannau asesu rhieni yw sefydlu addasrwydd rhiant geni i fod yn rhiant. Mae cyfnod asesu fel arfer yn para tua 12 wythnos. Yn anffodus, mae llawer o rieni geni'n methu â chadw eu llety am y cyfnod hwnnw, ac felly maent yn wynebu gorfod gadael y ganolfan asesu heb lety diogel, hirdymor o ansawdd iddyn nhw a'u plant ddychwelyd iddo. Unwaith eto, dywedwyd wrthym y gall hyn gyfrif yn eu herbyn mewn achos llys.

Y rhai sy'n gadael gofal

Mae llawer o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety addas i symud iddo ar ôl gadael y system ofal neu ar ôl gadael llety trosiannol â chymorth. Clywsom fod cyfyngiadau llym ar atgyfeiriadau am dai cymdeithasol ar ran y rhai sy'n gadael gofal gan sefydliadau'r trydydd sector, ac nad oes gan y rhai sy'n gadael gofal eu hunain unrhyw flaenoriaeth dros ymgeiswyr eraill os ydynt yn gwneud cais am dai cymdeithasol yn annibynnol.

Mae oedi wrth ddod o hyd i lety priodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn rhoi straen ar wasanaethau llety trosiannol, a fydd yn ceisio parhau i ddarparu llety i berson ifanc nes bod gan y person hwnnw rywle diogel i symud iddo. Mae hyn yn blocio gwelyau ar gyfer pobl ifanc eraill sy'n gadael y system ofal ac sydd angen y llety trosiannol â chymorth hwnnw cyn iddynt deimlo'n hyderus i fyw'n annibynnol.

Yn bwysicach fyth, gall fod yn brofiad hynod ofidus a thrawmatig i'r bobl ifanc. Mae llawer o'r rhai sy'n gadael gofal yn bobl ifanc agored i niwed sydd â phrofiad o gael eu cam-drin fel plant ochr yn ochr â'r ansefydlogrwydd sy'n deillio o newid lleoliad maeth, gweithwyr cymdeithasol ac ysgol yn aml. Mae'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran sicrhau llety'n gallu golygu bod llawer ohonynt yn agored i gamfanteisio, digartrefedd, camddefnyddio sylweddau a throseddau.

I'r rhieni geni sydd wedi bod mewn gofal eu hunain (sef cyfran uchel o'r holl rieni geni, yn ein barn ni), mae'n werth pwysleisio bod y prinder tai hefyd yn effeithio arnynt fel pobl sydd wedi gadael gofal, fel y'i nodwyd uchod.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau o'n gwaith ymgysylltu a'n digwyddiadau rhanddeiliaid yn fuan, a bydd hwn yn nodi'r pryderon hyn yn fanylach.



Fodd bynnag, mae gwahanol resymau, megis cyfyngiadau cylch gwaith ein Pwyllgor, yn golygu na fyddwn yn gallu rhoi i'r mater hollbwysig hwn yr amser a'r sylw y mae'n eu haeddu fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Rwy'n mawr obeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac y gallwch ei hystyried fel rhan o unrhyw waith sy'n cael ei wneud gennych, yn awr neu yn y dyfodol, ar dai i bobl agored i niwed. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod yn uniongyrchol, a byddant yn hapus i ddarparu deunydd briffio ychwanegol ar ein canfyddiadau hyd yma.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 7.2

CYPE(6)-08-23 - Papur i'w nodi 2

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal

Cymdeithasol

28 Chwefror 2023

Meddyginiaeth ar gyfer pryderon iechyd meddwl

Annwyl Russell,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi'n cynnal ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ein hymchwiliad wedi'i ysgogi gan leisiau plant a phobl ifanc. Rydym yn benderfynol y bydd eu safbwyntiau a'u profiadau yn llywio ein hadroddiad terfynol a'i argymhellion.

Yn ystod yr hydref, fe wnaethom gynnal ymweliadau ymgysylltu anffurfiol ledled Cymru i siarad â rhieni geni (rhieni sydd wedi cael/sydd yn y broses o gael plentyn wedi'i dynnu o'u gofal) am eu profiadau o'r system ofal a'u safbwyntiau yn ei chylch. Ar 26 Ionawr, cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid gyda rhieni geni i ategu ein hymweliadau ymgysylltu er mwyn rhoi cyfle i gynifer o rieni ifanc â phosibl gyfrannu at ein gwaith. Roedd gan fwyafrif helaeth y rhieni ifanc hyn brofiad o fod mewn gofal eu hunain, gyda llawer yn dweud wrthym eu bod wedi profi trawma sylweddol yn ystod plentyndod.

Roedd llawer o'r pethau a ddywedodd y bobl ifanc wrthym yn peri gofid a phryder mawr. Hoffwn godi un o'u pryderon gyda chi yn benodol: eglurodd rhai rhieni geni wrthym fod arnynt ofn siarad â'u meddyg teulu am sgil-ffeithiau negyddol meddyginiaeth ar bresgripsiwn i wella eu hiechyd meddwl. Maent yn ofni y gallai codi pryderon am sgil-ffeithiau gael ei ddehongli gan weithwyr cymdeithasol fel amharodrwydd i gymryd camau i wella eu hiechyd meddwl, ac y gallai hyn, yn ei dro, gyfrannu at weithwyr cymdeithasol neu eraill yn gwneud dyfarniadau negyddol am eu gallu i roi gofal digonol a phriodol i'w baban neu blentyn.

Enghraifft 1: Dywedodd un rhiant geni wrthym ei bod yn cael trafferth gydag iechyd meddwl gwael a gorbryder. Rhoddodd ei meddyg bresgripsiwn iddi ar gyfer gwrthiselyddion. Fodd bynnag, mae hi wedi stopio cymryd y gwrthiselyddion am eu bod wedi gwneud iddi deimlo'n waeth ac ymddwyn yn

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddPlant@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddPlant

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddChildren@senedd.wales

senedd.wales/SeneddChildren

0300 200 6565



afreolaidd. Pan wnaethom ofyn iddi a oedd hi wedi siarad â'i meddyg teulu am ei phryderon, dywedodd wrthym fod meddygon teulu yn tueddu i godi dos y gwrthiselyddion os bydd cleifion yn profi sgil-effeithiau fel ei rhai hi. Mae'n poeni y gallai dos uwch wneud y sgil-effeithiau yn waeth ac, os felly, y byddai hynny'n ei gwneud yn anoddach iddi ofalu am ei phlentyn.

Enghraifft 2: Dywedodd un rhiant geni wrthym fod ei gorbryder a'i hiselder yn golygu ei bod yn cael trafferth cysgu. Rhoddodd ei meddyg teulu bresgripsiwn iddi ar gyfer tabledi cysgu. Fodd bynnag, mae hi wedi stopio cymryd y tabledi oherwydd eu bod mor gryf mae'n ei chael yn anodd dihuno yn y bore. Teimlai fod y tabledi wedi gwneud iddi golli apwyntiadau a chyfarfodydd pwysig, a'i gwneud yn anodd iddi hyd yn oed ddihuno gyda'i phlentyn.

Yn y ddau achos hyn, mae'r menywod ifanc hyn wedi stopio cymryd eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn oherwydd effaith y sgil-effeithiau ar eu gallu i ofalu am eu plant. Nid ydynt wedi dweud wrth eu meddygon teulu am y sgil-effeithiau rhag ofn y bydd y meddygon naill ai'n codi'r dos neu'n rhoi presgripsiwn am feddyginiaeth arall, cryfach. Nid ydynt ychwaith wedi dweud wrth eu meddygon teulu eu bod wedi stopio cymryd y feddyginiaeth. Er eu bod yn teimlo bod y feddyginiaeth yn eu gwneud yn *llai* abl i ofalu am eu plant, roeddent yn pryderu'n fawr y gallai'r gwasanaethau cymdeithasol gael mynediad at eu cofnodion meddygol a chymryd safbwynt negyddol pe byddent yn gwrthod presgripsiwn am feddyginiaeth sydd i fod i wella eu hiechyd meddwl.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau o'n gwaith ymgysylltu a'n digwyddiadau rhanddeiliaid yn fuan, a bydd hwn yn nodi'r pryderon hyn yn fanylach.

Fodd bynnag, oherwydd amserlen yr ymchwiliad, ni fyddwn yn gallu rhoi i'r mater hollbwysig hwn yr amser a'r sylw y mae'n eu haeddu.

Gobeithio felly y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac y gallwch ei hystyried fel rhan o unrhyw waith yr ydych yn ymgymryd ag ef ar feddyginiaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod yn uniongyrchol, a byddant yn hapus i ddarparu deunydd briffio ychwanegol ar ein canfyddiadau hyd yma.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



CYPE(6)-08-23 - Papur i'w nodi 3

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg

Children, Young People
and Education Committee

Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau

28 Chwefror 2023

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Hysbysiad ynghylch cyhoeddi dogfennau allweddol yn ymwneud â'n hymchwiliad i ddiwygio radical o wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal

Annwyl Mark a Julie,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Hoffwn ddwyn eich sylw at [friff ystadegol](#) a gynhyrchwyd gan Ymchwil y Senedd i gefnogi ein hymchwiliad. Mae'r ddogfen yn nodi rhai o nodweddion 'plant sy'n derbyn gofal', ffactorau am y rhieni, gwariant gwasanaethau cymdeithasol a gwybodaeth am y gweithlu. Mae hefyd yn nodi canlyniadau i blant a phobl ifanc lle caiff y rhain eu mesur a'u cyhoeddi.

Ar ddechrau mis Mawrth, byddwn hefyd yn cyhoeddi ar [wefan ein hymchwiliad](#) gyfres o adroddiadau yn nodi canfyddiadau ein digwyddiadau ymgysylltu a'n digwyddiadau rhanddeiliaid. Dyma nhw:

- Adroddiad ar ganfyddiadau ymgysylltu: yn crynhoi canfyddiadau 11 o ymweliadau ar wahân ledled Cymru i siarad â rhieni geni, plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal.
- Crynodeb o ddiwyddiadau rhanddeiliaid:
 - Gyda rhieni geni ar 26 Ionawr, a ganolbwyntiodd ar elfen 'cyn gofal' yr ymchwiliad

- Gyda gweithwyr proffesiynol ac academyddion ar 26 Ionawr, gan ganolbwyntio ar elfen 'cyn gofal' yr ymchwiliad
- Gyda gweithwyr proffesiynol ac academyddion ar 26 Ionawr, gan ganolbwyntio ar elfen 'cyn gofal' yr ymchwiliad
- Gyda phlant a phobl ifanc ar 15 Chwefror, gan ganolbwyntio ar elfennau 'mewn gofal' ac 'ar ôl gofal' yr ymchwiliad

Byddwn yn rhannu'r adroddiadau hyn â chi o dan embargo cyn gynted ag y bo modd.

Mae'n fwriad gennym gyhoeddi ein hadroddiad terfynol, ochr yn ochr â fersiwn gryno, ym mis Mai.

Edrychaf ymlaen at drafod y materion pwysig sydd wedi codi drwy gydol yr ymchwiliad hwn â'r Dirprwy Weinidog ar 9 Mawrth. Yn y cyfamser, gobeithio y bydd y papurau briffio a'r adroddiadau hyn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor unrhyw bryd (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



CYPE(6)-08-23 - Papur i'w nodi 4

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

28 Chwefror 2023

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Trais, cam-drin ac aflonyddu rhywiol tuag at staff ysgol

Annwyl Jeremy,

Yn ystod ein hymchwiliad i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr, clywsom dystiolaeth anecdotaidd bod rhai staff ysgol yn cael eu haflonyddu'n rhywiol gan ddisgyblion ysgol. Fodd bynnag, nid oeddem yn glir ynghylch maint a natur yr aflonyddu hwnnw, felly ar 26 Medi gwnaethom ysgrifennu at wyth undeb llafur i ofyn am eu barn ar gyffredinrwydd aflonyddu rhywiol yn erbyn staff ysgol gan ddisgyblion ysgol. Cafwyd ymateb gan dri: UNSAIN Cymru, NEU Cymru, a NASUWT Cymru.

Mae'r ymatebion a gawsom yn nodi bod trais, camdriniaeth ac aflonyddu yn fater o bwys i lawer o staff ysgol. Felly, gwnaethom ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 14 Rhagfyr i ofyn am ei barn am y pryderon a godwyd gan yr undebau llafur.

Atebodd CLILC ein llythyr ar 6 Ionawr. Yn y llythyr, mae'n dweud:

- Yn gyffredinol mae awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd yn nifer y gwaharddiadau a gwaharddiadau parhaol dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae cyfran fawr o'r rhain wedi bod mewn perthynas ag achosion o ymddygiad geiriol a chorfforol ymosodol tuag at staff gan blant.
- Mae tensiynau gan rieni tuag at ysgolion mewn perthynas ag addysg eu plant yn ymddangos yn fwy amlwg o'i chymharu â materion cyn y pandemig.
- Canfyddir bod adrodd ar ddigwyddiadau wedi cynyddu, ond gall timau rheoli ysgolion wneud mwy i wella lefelau adrodd a sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu yn cael ei gynnig i staff.

Roedd llythyr CLILC yn peri pryder ynddo'i hun. Ond cawsom ymateb pellach wedyn gan UNSAIN Cymru dyddiedig 9 Chwefror yn dadlau y gallai canfyddiadau CLILC fod, mewn gwirionedd, yn amcangyfrif rhy isel o faint y broblem. Cynhaliodd UNSAIN arolwg o'i aelodau er mwyn llywio eu hymateb i'n llythyr dyddiedig 26 Medi. Maent yn dadlau nad yw'r data o'r arolwg hwnnw'n cyfateb i'r wybodaeth gan awdurdodau lleol a nodir yn llythyr CLILC. Mae UNSAIN yn awgrymu y gallai rhai penaethiaid fod yn portreadu digwyddiadau difrifol fel 'rhan o'r swydd' ac yn peidio ag annog staff i'w cofnodi. Maent yn nodi bod 41 y cant o'r rhai a ymatebodd i'w harolwg a oedd wedi bod yn rhan o ddigwyddiad yn teimlo nad ydynt wedi cael cefnogaeth ddigonol gan eu hysgolion.

Rydym yn poeni ynghylch y dystiolaeth a gawsom hyd yma. Rydym felly am gael eich barn am y pwyntiau a ganlyn:

- i. Maint a natur unrhyw drais, camdriniaeth ac aflonyddu tuag at staff ysgolion (sy'n golygu unrhyw aelod o staff sy'n gweithio ar ystâd ysgol, a gyflogir gan yr ysgol neu fel arall, neu sy'n gweithio ar ran yr ysgol mewn unrhyw leoliad arall).
- ii. A oes unrhyw grwpiau o staff mewn perygl arbennig, a pham.
- iii. Digonolrwydd ymatebion timau arwain ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol (lle bo'n berthnasol) i:
 - amddiffyn staff rhag trais, camdriniaeth ac aflonyddu yn y lle cyntaf;
 - staff cymorth sydd wedi dioddef trais, camdriniaeth ac aflonyddu;
 - cofnodi digwyddiadau; a
 - holi data i nodi tueddiadau a phatrymau, ac yna dylunio a gweithredu ymyriadau yn unol â hynny.
- iv. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, os o gwbl, i gefnogi timau arwain ysgolion a'r gweithlu ysgolion i fynd i'r afael â thrais, cam-drin ac aflonyddu tuag at staff ysgol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 14 Ebrill fan bellaf. Fel bob amser, os oes gennych unrhyw bryderon o ran y dyddiad hwn, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS



Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon